**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CRAFFU - GWASANAETHAU CYMUNED**
Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 21 Tachwedd 2023 am 5.00 pm ym Rhithwir.

Cafodd y cyfarfod yma ei recordio, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Aelodau Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned canlynol yn bresennol:-**

Y Cynghorydd J Bonetto (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S Bradwick | Y Cynghorydd R Davis |
| Y Cynghorydd D Evans | Y Cynghorydd N H Morgan |
| Y Cynghorydd G Jones | Y Cynghorydd Owen-Jones |
| Y Cynghorydd D Parkin | Y Cynghorydd A Roberts |
| Y Cynghorydd G Stacey | |

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms L Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Mr N Elliott, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Ms R Hope, Pennaeth Dros Dro – Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio
Mr N Pilliner, Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai
Ms J Bow, Head of Service - Accommodation

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol**

Y Cynghorydd G Caple, Aelod o'r Cabinet
Y Cynghorydd D Grehan

**Ymddiheuriadu am absenoldeb**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd A J Ellis | Y Cynghorydd A Fox |
| Y Cynghorydd H Gronow | Y Cynghorydd T Williams |

**18 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â'r Cod Ymddygiad, datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Bradwick fuddiant personol o ran eitem 5 Rhag-graffu – Gwasanaethau Oriau Dydd ar gyfer Pobl Hŷn.
"Roeddwn i'n arfer gweithio i Tegfan."

**19 DOLENNI YMGYNGHORI**

Aeth yr Aelodau ati i gydnabod yr wybodaeth oedd wedi'i darparu trwy'r dolenni ymgynghori mewn perthynas ag ymgynghoriadau agored, ymgynghoriadau

Llywodraeth Cymru a'r materion hynny y mae'r awdurdod lleol yn cynnal ymgynghoriadau ynglŷn â nhw.

## 20 COFNODION

Amlinellodd Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd faterion sy'n deillio o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25.09.23, gan nodi bod gwybodaeth bellach wedi cael ei rhannu gydag Aelodau mewn perthynas â natur Cwynion yr Ombwdsmon a chyflawniad presennol rhestr aros ac amseroedd aros y Garfan Addasu ac Offer yn y Gymuned (ACE) ar gyfer asesiad ACE.

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ddiweddariad ar lafar i Aelodau ar ddefnydd data byrddau gwyn ysbytai a materion rheoli gwybodaeth mewn perthynas â chydsyniad rhannu data. O ganlyniad i gyfyngiadau amser, doedd dim modd llunio adroddiad ar gyfer y cyfarfod yma. Felly rhoddwyd gwybod i Aelodau y byddai adroddiad pellach ar y mater yma'n cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Medi 2023 yn rhai cywir.

## 21 Rhag-graffu – Adroddiad Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu bwrpas yr adroddiad er mwyn i Aelodau rag-graffu ar y manylion yn yr adroddiad a rhoi sylwadau i'r Cabinet cyn iddo ei drafod. Cyflwynodd Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai fanylion yr adroddiad er mwyn rhoi cyfle i Aelodau graffu ar effeithiolrwydd Cynllun Trwyddedu Ychwanegol (ALS) 2019 ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth (HMOs) a'r cynnig i ddatgan Cynllun Trwyddedu Ychwanegol newydd ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth o fis Ebrill 2024, yn unol â darpariaethau Deddf Tai 2004.

Amlinellodd Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai ddiffiniad Tai Amlfeddiannaeth a chefndir yr adroddiad. Cafodd Aelodau wybod bod gan dai amlfeddiannaeth risg uwch o ran tân, a bod angen rhagofalon tân ychwanegol o ganlyniad i hyn. Hefyd, gall nifer uwch o dai amlfeddiannaeth sy'n cael eu rheoli mewn ffordd wael ychwanegu pwysau at gymunedau lleol. Rhoddwyd gwybodaeth i Aelodau o ran nifer y tai amlfeddiannaeth yn Rhondda Cynon Taf ar hyn o bryd ac mae nifer uchel o'r rhain yn ward Trefforest lle mae nifer uchel o fyfyrwyr.

O ran deddfwriaeth, nodwyd yn yr adroddiad y daeth Deddf Tai 2004 ('y Ddeddf') i rym yng Nghymru ym mis Mehefin 2006 a chyflwynodd bwerau i Awdurdodau Lleol reoleiddio safonau yn y sector rhentu preifat, gan gynnwys y gofyniad i Awdurdodau Lleol drwyddedu mathau penodol o dai amlfeddiannaeth, sef Trwyddedu Mandadol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth. Rhoddodd y Ddeddf hawl i Awdurdodau Lleol gyflwyno mathau eraill o gynllun trwyddedu ar gyfer mathau gwahanol o dai amfeddiannaeth (Trwyddedu Ychwanegol) a thrwyddedu'r sector rhentu meddiannaeth unigol (Trwyddedu Dethol). Cafodd Aelodau wybod bod y ddau gynllun yn ddewisol.

Cafodd Aelodau wybodaeth bellach o'r adroddiad mewn perthynas â'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol, a nododd Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd a Safonau

Tai fod y Cyngor wedi gweithredu Cynlluniau Trwyddedu Ychwanegol olynol ers 2006. Cafodd Cynllun Trwyddedu Ychwanegol 2014 ei adolygu yn 2018 lle penderfynwyd rhoi Cynllun Trwyddedu Ychwanegol pellach ar waith o 1 Ebrill 2019. Cafodd Aelodau wybod bod y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol presennol yn dod i ben ar 31 Mawrth 2024.

Nododd Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai fod proses cyflwyno cais ar-lein, a gafodd ei chyflwyno yn 2019, wedi arwain at amser prosesu gwell ar gyfer trwyddedau. Hefyd, newidiwyd y ffordd y cafodd ffïoedd eu prosesu a chafodd taliad dwy ran ei gyflwyno i dalu am gostau rhoi'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol ar waith.

Cafodd Aelodau eu hatgoffa bod rhaid i'r penderfyniad i adnewyddu Cynllun Trwyddedu Ychwanegol fod yn seiliedig ar dystiolaeth o'r angen am gynllun o'r fath a thynnwyd eu sylw at yr adran berthnasol yn yr adroddiad ac Atodiad 1 sy'n cynnwys manylion y gwerthusiad llawn o'r Cynlluniau Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth (Ychwanegol a Mandadol) ers 2019, a gafodd ei gynnal gan y Garfan Strategaeth Dai. Cafodd y canfyddiadau allweddol, fel sydd wedi'u hamlinellu yn adran 4 o Atodiad A, eu cyflwyno i Aelodau.

Tynnwyd sylw Aelodau at Atodiad 3 sy'n cynnwys canlyniadau llawn yr ymgynghoriad cyhoeddus a gafodd ei gynnal rhwng 5 Medi 2023 a 17 Hydref 2023, sef cyfnod o 6 wythnos. Cafodd Aelodau ganfyddiadau allweddol yr ymgynghoriad yma fel sydd wedi'u hamlinellu yn adran 5 o Atodiad A.

Mewn perthynas â'r cynnig o argymhellion ar gyfer cynllun 2024, cafodd Aelodau wybod bod adolygiad o'r amodau wedi darganfod eu bod nhw'n addas i'r diben yn bennaf, er y tynnodd Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai sylw Aelodau at amod diogelwch tân ychwanegol wedi'i argymell fel sydd i'w weld yn adran 5.6 o Atodiad 2.

Cyfeiriodd Aelod at faint a lleoliad ystafelloedd mewn Tai Amlfeddiannaeth, gan rannu profiad preswylydd sy'n byw mewn ystafell atig, a hynny'n groes i reoliadau tân. Gofynnodd yr Aelod gwestiwn am ymweliadau archwilio tai amfeddiannaeth a chynnwys tenantiaid yn yr archwiliadau yma. Ymatebodd Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai drwy nodi bod safonau o ran lle yn berthnasol i Dai Amlfeddiannaeth a bod y Cyngor yn gorfodi'r rhain yn rhan o'r archwiliadau. Ychwanegodd fod modd trafod unrhyw bryderon penodol o ran amgylchiadau unigol yn uniongyrchol gyda'r garfan Safonau Tai. Dywedodd Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai fod Swyddogion yn ceisio siarad â thenantiaid yn rhan o'r archwiliad a bod rhaid iddyn nhw weld pob ystafell felly dylai tenantiaid wybod pryd mae archwiliad yn cael ei gynnal.

Nododd Aelod lefel yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyhoeddus a rhoddodd ganmoliaeth i'r garfan am y nifer dda o ymatebwyr ac am y sylwadau dilys a gafodd eu gwneud. Nododd yr Aelod y byddai dadansoddiad pellach o'r ymatebion yn ôl pob grŵp ymatebwyr yn helpu Aelodau ymhellach i graffu ar y canlyniadau. Amlinellodd yr Aelod bryder o ran yr adborth cyfyngedig mewn perthynas â'r grŵp tenantiaid, gan nodi bod gan y grŵp yma lais pwysig. Gofynnodd beth arall y mae modd ei wneud i ymgysylltu â thenantiaid. Aeth Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai ati i gydnabod nad yw lefelau ymatebwyr yn y grŵp tenantiaid mor uchel â'r gobaith, a dywedodd y cafodd ymweliadau stepen drws eu cynnal yn ystod yr ymgynghoriad a chafodd sesiynau eu trefnu gydag undeb y myfyrwyr. Yn y dyfodol, cydnabyddir y byddai modd ymgysylltu'n fwy ag undeb y myfyrwyr gan fod nifer o denantiaid yn

fyfyrwyr.  Cydnabyddir y bydd rhagor o adborth gan denantiaid yn werthfawr yn y dyfodol.

Gofynnodd Aelod arall am yr elfen diogelwch mewn Tai Amlfeddiannaeth a'r gallu i sicrhau bod gan unigolion gloeon ar ystafelloedd i greu mannau diogel. Aeth Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai ati i gydnabod pwysigrwydd hyn a rhoddodd sicrwydd i Aelodau y byddai hyn yn cael ei gynnwys yn yr amodau trwyddedu ac y bydd yn sicrhau bod hyn yn cael ei gynnwys pan fydd amodau ar gyfer 2024 yn cael eu hadolygu.

Nododd Aelod y problemau penodol sy'n effeithio ar ardal Pontypridd / Trefforest o ganlyniad i nifer uchel o dai amfeddiannaeth, gan gyfeirio at ymddygiad gwrthgymdeithasol yn benodol.
Ymatebodd Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai drwy nodi bod trefn archwilio trwyddedu tai amlfeddiannaeth yn ceisio mynd i'r afael â phroblemau parhaus a chyfeiriodd at sut mae pryderon o ran cynllunio wedi cael sylw trwy Ganllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â nifer y Tai Amfeddiannaeth. Ychwanegodd fod y maes gwasanaeth yn gweithio gyda charfanau ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofal y strydoedd, gyda nifer o weithwyr yn mynd i'r ardal i geisio mynd i'r afael â phroblemau. Tynnodd Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai sylw at y ffaith bod y problemau a godwyd yn dangos yr angen am y cynllun yn y dyfodol gan ei fod yn ceisio sicrhau gwelliannau bob tro ac yn ymdrin â'r amodau eto i fynd i'r afael â'r problemau. Ychwanegodd Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned fod gan Drefforest farchnad dai unigryw ac aeth ati i gydnabod bod y problemau'n hirsefydlog ond pwysleisiodd y pwynt a gafodd ei wneud am yr angen am drwyddedu parhaus a gwella elfennau o'r cynllun allai barhau i fynd i'r afael â phroblemau.  Nododd y Cyfarwyddwr fod y cynllun yn ymdrin â diogelwch a lles tenantiaid a bod gan RCT y cynllun trwyddedu mwyaf cynhwysfawr yng Nghymru ar hyn o bryd, a hynny er mwyn cydnabod bod pwysau unigryw yn y farchnad dai.

Gofynnodd Aelod beth y mae modd ei wneud i fynd i'r afael â Thai Amlfeddiannaeth nad ydyn nhw'n cydymffurfio a landlordiaid absennol, gan nodi bod problemau'n codi yn y math yma o eiddo'n fwy aml. Dywedodd Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai fod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal mewn perthynas â ward Trefforest, yn ogystal ag archwiliadau blynyddol i ddod o hyd i achosion o beidio â chydymffurfio, a bod camau gorfodi yn cael eu cymryd lle bo angen. Nododd y Rheolwr hefyd yr angen am waith cynnal a chadw a rheoleiddio parhaus, gan gadw gweithwyr yn yr ardal pan fydd y cynllun ar waith fel dyletswydd i barhau â gwaith monitro parhaus a chymryd camau priodol.

Ychwanegodd Aelod arall at y pryderon o ran landlordiaid nad ydyn nhw'n cydymffurfio, gan nodi'r ffigurau uchel sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad, a gofynnodd beth sy'n digwydd ar ôl dod o hyd i achosion o beidio â chydymffurfio ac a ydy archwiliadau blynyddol yn ddigon i ddod o hyd i bob problem. Amlinellodd Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai y broses cyflwyno cais, gan roi gwybod i Aelodau fod angen i landlordiaid fodloni'r safonau cyn i drwydded gael ei rhoi. Mae archwiliad bob 3 blynedd ar ôl hynny er mwyn sicrhau bod landlordiaid yn cydymffurfio ag amodau'r drwydded a safonau tai cyffredinol. Cafodd Aelodau wybod bod camau gweithredu yn cael eu cymryd os oes unrhyw broblemau a nodir yn ystod yr archwiliadau yma, a hynny o dan hysbysiadau peidio â chydymffurfio ag amodau neu hysbysiadau gwella all arwain at gamau erlyn. Dywedodd Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai fod cydymffurfiaeth yn dda yn gyffredinol ar ôl dod o hyd i broblemau a'u codi

nhw gyda landlordiaid.

Nododd Aelod fod y rhan fwyaf o ddata yn berthnasol i ward Trefforest a gofynnodd a oes cynnydd yn nifer y Tai Amfeddiannaeth mewn ardaloedd eraill ledled y fwrdeistref a ddylai gael sylw. Ymatebodd Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai drwy nodi mai Trefforest yw'r prif leoliad ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth o ganlyniad i leoliad y brifysgol a nad oes gwybodaeth i awgrymu cynnydd mewn ardaloedd eraill ar hyn o bryd.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD** Aelodau:

Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu i roi sylwadau'r Pwyllgor i'r Cabinet yn dilyn rhag-graffu ar yr adroddiad.

**22 Rhag-graffu - Gwasanaethau Oriau Dydd ar gyfer Pobl Hŷn**

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu bwrpas yr adroddiad er mwyn i Aelodau rag-graffu ar y manylion yn yr adroddiad a rhoi sylwadau i'r Cabinet cyn iddo ei drafod. Nododd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol mai pwrpas yr adroddiad yw gwneud argymhellion mewn perthynas â darpariaeth Gwasanaethau Oriau Dydd y Cyngor ar gyfer pobl hŷn yn y dyfodol.

Amlinellodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol gefndir yr adroddiad, gan nodi y cytunodd y Cabinet yn ei gyfarfod ar 11 Medi 2019, yn dilyn cyfnod o ymgynghori ffurfiol, ar fodel gwasanaethau oriau dydd newydd ar gyfer pobl hŷn a fyddai'n newid y pwyslais cyfredol i ffwrdd o wasanaethau mewn adeiladau, lle mae'n ofynnol i'r unigolion gael eu cyfyngu gan y gwasanaethau sydd ar gael, tuag at wasanaeth mwy personol sy'n ymateb yn well i anghenion a deilliannau unigol. Mae bellach angen adolygu darpariaeth gwasanaethau oriau dydd ar gyfer pobl hŷn.

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol drosolwg i Aelodau o'r gwasanaethau oriau dydd presennol ar gyfer pobl hŷn, fel sydd wedi'i amlinellu yn Atodiad A. Rhoddodd wybod i Aelodau fod nifer y bobl sy'n mynd i Ganolfannau Oriau Dydd y Cyngor wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf er eu bod nhw'n parhau i fod yn boblogaidd ymhlith y bobl sy'n eu defnyddio nhw a'u bod nhw'n rhoi seibiant i gynhalwyr.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod lle i gredu bod angen i'r maes gwasanaeth ailgynllunio ei wasanaethau oriau dydd ar gyfer pobl hŷn wrth ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i hamlinellu yn adran 4 o Atodiad A. Mae hefyd angen sicrhau bod y gwasanaethau oriau dydd yn parhau i fodloni anghenion sydd wedi'u hasesu ac anghenion sy'n newid mewn ffyrdd sy'n fwy effeithiol ac effeithlon o ran cost, a hynny'n unol â gofynion cyffredinol model gwasanaethau oriau dydd y Cyngor ar gyfer pobl hŷn.

Amlinellodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ddau gynnig fel sydd wedi'u nodi yn adran 5 o Atodiad A. Cafodd Aelodau wybod y byddai angen adolygu strwythurau staffio pe byddai'r cynigion yn cael eu cymeradwyo, a byddai angen ymgynghori ar unrhyw newidiadau â staff a chynrychiolwyr undebau cyn unrhyw newid i wasanaeth. Amlinellodd y Cyfarwyddwr y broses a fyddai'n cael ei chynnal gyda defnyddwyr gwasanaethau oriau dydd presennol

i'w cefnogi nhw gydag unrhyw newidiadau.

Cafodd Aelodau wybod y bydd ailgynllunio gwasanaethau oriau dydd y Cyngor yn sicrhau bod darpariaeth yn hyrwyddo lles ac annibyniaeth unigolion wrth gefnogi darpariaeth gwasanaethau sy'n fwy effeithlon a defnyddio adnoddau'r Cyngor yn effeithiol. Rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod i Aelodau y gallai'r cynigion greu arbedion refeniw amcangyfrifedig gwerth tua £140,000 mewn blwyddyn gyfan pe bydden nhw'n cael eu cymeradwyo. Yr argymhelliad fyddai clustnodi'r arian yma a'i fuddsoddi'n ôl yng nghyllideb y Gwasanaethau i Oedolion, gan alluogi'r Cyngor i gynnal gwasanaethau gofal a chymorth hanfodol.

Cyfeiriodd Aelod at Ganolfan Oriau Dydd Tonyrefail a gofynnodd faint o'r 17 o unigolion sy'n mynd yno, a'r 64 o unigolion sydd wedi'u cofrestru i fynd, yn byw yn Nhonyrefail, a gofynnodd a oes capasiti ar gyfer pob un ohonyn nhw o dan y cynigion i adleoli. Nododd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod 2 unigolyn sy'n byw yn Nhonyrefail yn mynd i'r ganolfan ar hyn o bryd. Mae 17 o unigolion y diwrnod yn mynd i'r ganolfan ar gyfartaledd ac maen nhw'n cael cyfleoedd yn seiliedig ar anghenion a bydd anghenion unigol yn cael eu bodloni o dan y cynigion sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad ar gyfer Cwrt yr Orsaf ac yng nghyfleuster Dan y Mynydd yn y tymor hir.

Gofynnodd Aelod arall am y ffigurau yn yr adroddiad mewn perthynas â Chanolfan Oriau Dydd Trecynon, a gofynnodd am eglurhad bod gan gyfleuster Cwmni Dda ddigon o gapasiti ar gyfer nifer yr unigolion sy'n mynd i'r ganolfan ar gyfartaledd ar hyn o bryd. Aeth Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ati i gadarnhau bod capasiti Cwmni Dda dros 20 wrth ddefnyddio'r ddwy ystafell a bod y maes gwasanaeth yn hyderus bod digon o gapasiti. Nododd nad yw'r ffordd y mae'r wybodaeth yn cael ei chyflwyno yn yr adroddiad yn gwneud hyn yn eglur.

Nododd Aelod yr ailstrwythuro o ran staffio fyddai'n angenrheidiol o ganlyniad i hyn, a chyfeiriodd at yr angen a'r bwriad i gefnogi defnyddwyr y gwasanaethau i ymdopi â'r newid mewn modd sensitif. Gofynnodd yr Aelod am ragor o fanylion am sut y byddai'r broses yma'n cael ei chynnal wrth sicrhau nad oes effaith ar lefelau gofal. Nododd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai'r maes gwasanaeth yn sicrhau ei fod yn cysylltu â theuluoedd ac unigolion yn rhan o unrhyw broses newid i esbonio'r hyn y byddai'r newidiadau'n ei olygu a byddai eiriolwr yn gweithio gyda nhw. Esboniodd y Cyfarwyddwr y byddai unrhyw ailasesiadau sydd eu hangen yn cael eu cynnal. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr na fyddai'r cynigion yn newid lefel y gofal a chymorth, a byddai hyn yn parhau fel y mae ar hyn o bryd. O ran staff, esboniodd y Cyfarwyddwr er bod rhywfaint o waith wedi cael ei gynnal i nodi strwythurau posibl, fyddai hi ddim yn addas rhoi manylion cyn i'r Cabinet gymeradwyo'r cynigion. Rhoddwyd sicrwydd i Aelodau y byddai'r maes gwasanaeth yn sicrhau bod proses rheoli newid y Cyngor yn cael ei dilyn, a bod cymorth priodol ar gael i staff, yn dilyn unrhyw benderfyniad sy'n cael ei wneud gan y Cabinet. Ychwanegodd Pennaeth y Gwasanaeth – Llety at hyn drwy amlinellu manylion penodol cymorth sydd ar gael i ddefnyddwyr y gwasanaethau a staff, gan roi enghreifftiau blaenorol o gynnal y broses yma.

Gyda chytundeb y Cadeirydd, aeth Aelod nad yw'n Aelod o'r Pwyllgor ati i annerch y Pwyllgor ac amlinellodd bryderon o ran y cynigion ar gyfer Canolfan Oriau Dydd Tonyrefail. Nododd fod y ffigurau yn yr adroddiad yn dangos bod 70% o'r lleoedd sydd ar gael yn cael eu defnyddio bob dydd ac roedd o'r farn

bod hyn yn nodwedd gadarnhaol ac yn dangos yr angen i'r cyfleuster barhau i fod yn lleoliad diogel a chroesawgar i unigolion. Wrth gyfeirio at y capasiti sydd ar gael, roedd yr Aelod nad yw'n Aelod o'r Pwyllgor o'r farn bod hyn yn gyfle i staff allu ymgysylltu â'r gymuned leol i gynyddu nifer yr unigolion sy'n mynd i'r lleoliad yma. Cyfeiriodd hefyd at y cynnydd o ran amser teithio ar gyfer unigolion sy'n mynd i Ganolfan Oriau Dydd Tonyrefail ar hyn o bryd a mynegodd bryderon y byddai hyn yn effeithio ar allu rhai defnyddwyr y gwasanaethau i barhau i fynd i ganolfan oriau dydd. Ymatebodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol drwy nodi bod 64 o unigolion sydd wedi'u cofrestru i fynd i'r ganolfan yn mynd ar ddiwrnodau gwahanol, gan ddibynnu ar eu hanghenion sydd wedi'u hasesu. Dydy hon ddim yn ganolfan oriau dydd mynediad agored i unigolion a fyddai hi ddim yn addas i'r staff ymgysylltu â'r gymuned leol i ddod i'r ganolfan. Aeth y Cyfarwyddwr ati i gydnabod y gwaith da sy'n cael ei gynnal yn y canolfannau ar hyn o bryd ond rhoddodd sicrwydd i Aelodau y byddai hyn yn parhau yn y lleoliadau newydd, gan drosglwyddo i gyfleuster all gynnig rhagor na'r adeiladau presennol. Trafnidiaeth – byddai hyn yn newid ond bydd hi'n bwysig edrych ar lwybrau i sicrhau eu bod mor effeithlon â phosibl.

Cwestiynodd Aelod o'r Pwyllgor y cyfeiriad at gyfleuster Dan y Mynydd a thynnodd sylw at y cyfle posibl i'w ddefnyddio a llywio gwaith dylunio'r adeilad. Aeth Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ati i gadarnhau nad yw cyfleuster Dan y Mynydd wedi cael ei adeiladu eto ac amlinellodd y cynlluniau iddo fod yn gyfleuster Gofal Ychwanegol, gan rannu'r oedi o ran y prosiect yma. Cafodd Aelodau wybod y bydd hi'n cymryd tua 24 mis i'r cyfleuster gael ei gwblhau felly teimlwyd mai'r opsiynau sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad yw'r rhai mwyaf addas ar hyn o bryd.

Gofynnodd Aelod am y broses asesu y mae unigolion yn ei chwblhau ar hyn o bryd i fynd i ganolfannau oriau dydd. Cyfeiriodd yr Aelod at y data sydd yn yr adroddiad a gofynnodd am ganran y rheiny sydd wedi'u cofrestru i fynd i ganolfan oriau dydd nad ydyn nhw'n mynychu ar hyn o bryd, ac a oes unrhyw ddata o ran y rhesymau pam. Yn olaf, rhannodd yr Aelod bryder y bydd Cwrt yr Orsaf yn cynyddu nifer y bobl leol sy'n gofyn am atgyfeiriad i ddefnyddio canolfan oriau dydd ym Mhontypridd a bydd hyn yn cael effaith ar gapasiti ar gyfer yr unigolion sy'n trosglwyddo o Donyrefail. Amlinellodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol broses atgyfeirio gadarn y gwasanaethau cymdeithasol sy'n seiliedig ar anghenion unigolion a'r cymorth sydd ar gael. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr fod mynd i'r ganolfan oriau dydd yn seiliedig ar angen a dywedodd na fyddai lleoliad y ganolfan yn debygol o gynyddu anghenion unigolion lleol. Aeth y Cyfarwyddwr ati i gydnabod y cais am ragor o fanylion am y rhesymau pam nad yw unigolion sydd wedi'u cofrestru yn mynd i'r ganolfan ar hyn o bryd.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD** Aelodau:

- Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu i roi sylwadau'r Pwyllgor i'r Cabinet, cyn iddo drafod y mater.

## 23 ADOLYGIAD Y CADEIRYDD A DOD Â'R CYFARFOD I BEN

Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i'r Swyddogion am eu hadroddiadau a chyflwyniadau cynhwysfawr. Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i Aelodau am gyfrannu at drafodaeth fanwl y ddau adroddiad a thynnodd sylw at yr effaith

bwysig y mae rhag-graffu ar yr adroddiadau yn ei chael.

**24 MATERION BRYS**

Dim.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.35 pm**

**Y Cynghorydd J Bonetto**
**Cadeirydd.**